COFNOD O BENDERFYNIADAU CYFARFOD YCABINET A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB, DDYDD MAWRTH, 18 GORFFENNAF 2023 AM 14:30 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

Y Cynghorwyr J Gebbie, JP Blundell, N Farr, JC Spanswick, H Williams, R Goode

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Swyddogion

| | |
|---|---|
| M Shephard | Y Prif Weithredwr |
| C Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| C Lord | Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid |
| K Watson | Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol, AD a Pholisi Corfforaethol |
| M Morgans | Pennaeth Partneriaethau |
| N Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| A Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| M Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Pwyllgorau |
| S Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cymeradwyo’r Cofnodion |
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet, 20 Mehefin 2023 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Monitro Cyllideb 2023-24 - Rhagolygon Refeniw Chwarter 1 |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet:<br>• yn nodi'r sefyllfa refeniw a ragwelid ar gyfer 2023-24;<br>• yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau dros £100,000 fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.1.7. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf Chwarter 1, 2023-24 |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet:<br>• yn nodi diweddariad Chwarter 1 i Raglen Gyfalaf y Cyngor 2023-24 hyd 30 Mehefin 2023 (Atodiad A);<br>• yn cytuno bod y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig a gytunwyd (Atodiad B) i gael ei chyflwyno i'r Cyngor am ei gymeradwyaeth;<br>• yn nodi'r Dangosyddion Darbodus ac eraill a ragwelir ar gyfer 2023-24 (Atodiad C). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Rheoli'r Trysorlys - Chwarter 1 2023-24 |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet:<br>• yn nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2023-24 am y cyfnod o 1 Ebrill 2023 i 30 Mehefin 2023;<br>• yn nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y chwarter yn diweddu ar 30 Mehefin 2023 yn erbyn y rhai a gafodd eu cymeradwyo yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-24. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |

| | |
|---|---|
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2023-24 a'r Fframwaith Perfformiad |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet:<br>• wedi ystyried a chytuno ar ddrafft cyntaf Cynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol 2023-24 yn Atodiad 1;<br>• wedi ystyried a chytuno ar y Fframwaith Perfformiad Corfforaethol wedi ei ddiweddaru yn Atodiad 2 a'r ffordd orau i ddefnyddio'r ddogfen ar draws y Cyngor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai (Strategaeth Ddigartrefedd) 2022 - 2026, Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym a Phrosbectws Tai |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet:<br>• yn cymeradwyo ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y Strategaeth Ddigartrefedd ddrafft a'r Cynllun Gweithredu (Atodiadau 1 a 4);<br>• yn cymeradwyo cyflwyno'r Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym a'r Prosbectws Tai (Atodiad 3) i Lywodraeth Cymru;<br>• yn nodi y caiff y Strategaeth Ddigartrefedd a'r Cynllun Gweithredu terfynol eu cyflwyno i'r Cabinet i gael eu cymeradwyo cyn eu cyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Prosiect Meithrin Perthynas gyda'n gilydd |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet:<br>• yn nodi cynnwys yr adroddiad; |

| | |
|---|---|
| | • yn cymeradwyo mewn egwyddor cychwyn y prosiect ym mis Medi 2023 yn amodol ar fod wedi cwblhau’r telerau a’r amodau a amlinellwyd yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Trefniadau Cludiant Coleg ôl-16 2023-24 |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet:<br>• yn cymeradwyo defnyddio’r gwasanaeth bws cyhoeddus presennol, First Cymru, gan mai dyma’r unig wasanaeth bws cyhoeddus sy’n gallu cwrdd ag anghenion cludiant o’r cartref i’r coleg yr holl ddysgwyr cymwys fydd yn mynychu Coleg Pen-y-bont o fis Medi 2023;.<br>• yn dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i brynu tocynnau bws yn uniongyrchol gan First Cymru yn unol â'r hawlildiad sydd ar gael o dan CPR 3.2.3; ac<br>• yn cytuno i weithio gyda Choleg Pen-y-bont i hyrwyddo’r cynnig cludiant coleg newydd, gan gynnwys y manteision os bydd dysgwyr coleg yn tanysgrifio i ‘fyngherdynteithio’ Llywodraeth Cymru ac yn ei ddefnyddio, fydd yn caniatáu gwneud arbedion effeithlonrwydd ariannol i wasanaethau’r Cyngor. I gael ei ddiwygio i gynnwys y canlynol, “ac os mai ychydig o danysgrifio sydd, adolygu ein polisi ôl-16 gyda’r bwriad o wneud hyn yn ofynnol”;<br>• yn diwygio Paragraff 3.4 i “mae’r awdurdod lleol bellach yn cynnig darparu tocynnau bws cludiant coleg i bob dysgwr cymwys ar gais.” |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Datganodd y Cynghorydd N Farr fuddiant rhagfarnus. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Y Weithdrefn ar gyfer Penodi a Diswyddo Llywodraethwyr Ysgol yr Awdurdod Lleol. |
| Y Penderfyniad Wnaed | Tynnwyd yn ôl |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu | Dim |

| | |
|---|---|
| Ragfarnus a Ddatgelwyd | |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Blaenraglen Waith y Cyngor, y Cabinet a’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet:<br>• yn cymeradwyo Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfnod o 1 Gorffennaf 2023 i 31 Hydref 2023 yn Atodiad 1;<br>• yn nodi Blaenraglenni Gwaith y Cyngor a’r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu am yr un cyfnod, fel y dangoswyd yn Atodiad 2 ac Atodiad 3 yr adroddiad, yn y drefn honno. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Trosglwyddo safleoedd Gorsaf Heddlu Cheapside a Maes Parcio Aml-lawr Bracla Un i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Penderfyniad Wnaed | Bod y Cabinet:<br>• yn nodi’r cynnydd sydd wedi ei wneud mewn cysylltiad â chaffael a dymchwel safle’r hen Orsaf Heddlu yn Cheapside yn barod i’w drosglwyddo i Goleg Pen-y-bont i gefnogi eu cynnig ar gyfer campws Canol y Dref;<br>• yn nodi'r cynnydd o ran dymchwel maes parcio aml-lawr Bracla Un;<br>• yn rhoi awdurdod i swyddogion i gwblhau’r ddogfennaeth gyfreithiol ofynnol ar gyfer trosglwyddo’r ddau safle i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr am ddim ystyriaeth yn unol â Phrotocol Cydleoli a Throsglwyddo Tir Ystadau LlC a Rheolaeth y Ddeddf Cymhorthdal er mwyn cefnogi a hwyluso datblygiad Campws Canol y Dref yn unig, lle pe na bai'r datblygiad hwn yn mynd rhagddo y byddai'r tir yn trosglwyddo'n ôl i CBS Pen-y-bont ar Ogwr. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Adroddiad Gwybodaeth i’w nodi |
| Y Penderfyniad Wnaed | Cydnabu'r Cabinet gyhoeddi’r adroddiad y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 3.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Eitemau Brys |
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Gwahardd y Cyhoedd |
| Y Penderfyniad Wnaed | O dan Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y’i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu gwahardd o’r cyfarfod tra byddent yn ystyried yr eitemau busnes canlynol am eu bod yn cynnwys gwybodaeth oedd wedi ei heithrio fel y’i diffiniwyd ym Mharagraff 14 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A y Ddeddf.<br><br>Yn dilyn cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â’r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda’r cyhoedd wedi eu gwahardd o’r cyfarfod, gan yr ystyrid yn yr holl amgylchiadau yn ymwneud â’r eitemau, fod lles y cyhoedd mewn cynnal yr eithriad yn gorbwyso lles y cyhoedd mewn datgelu’r wybodaeth. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 18 Gorffennaf 2023 |
| Buddiannau Personol neu Ragfarnus a Ddatgelwyd | Dim |